# Datganiad yr Iaith Gymraeg 2015/16
# Welsh language Statement 2015/16

| | |
|---|---|
| Fel cyngor yn gyffredinol, rydym yn cydnabod bod iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth person a bod gan aelodau'r cyhoedd yr hawl i fynegi eu barn a chael mynediad i wasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gennym hefyd ddyletswydd i hybu a chael empathi â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Dywedodd 24.6% o boblogaeth Sir Ddinbych (22,236 o bobl) eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Mae'r nifer wedi gostwng ers 2001. Er bod cyfran uwch o bobl yn siarad Cymraeg yn ardaloedd gwledig y sir, mae nifer uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y Rhyl - felly mae hwn yn fater sy'n effeithio ar bob aelod o staff.<br><br>Fel Cyfarwyddwr ac aelod arweiniol, rydym wedi ymrwymo i fod yn fwy rhagweithiol ynghylch sut y gall pobl gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o'n staff wedi cael eu haddysgu yng Nghymru, ac mae llawer wedi ceisio dysgu Cymraeg. Er na fydd pob aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg, rydym yn disgwyl y byddant i gyd yn dangos ymdeimlad o le a brwdfrydedd dros Gymru, wrth wneud trefniadau ymarferol i gwrdd ag anghenion iaith. | As a council overall, we recognise that language is an essential part of a person's identity and that members of the public have a right to express their views and access services in Welsh and English. We also have a duty to promote and have empathy with the Welsh language and culture. 24.6% of the population of Denbighshire (22,236 people) said they could speak Welsh in 2011. The number has reduced since 2001. Though a higher proportion of people speak Welsh in the rural areas of the county, a greater number of Welsh speakers live in Rhyl- so this is an issue which affects all staff.<br><br>As Director and lead member, we are committed to being more proactive about how people can access social services in Denbighshire through the medium of Welsh and increase the use of Welsh at work. We know that most of our staff have been educated in Wales, and many have sought to learn Welsh. While not all staff will be fluent in Welsh, we do expect that all will demonstrate a sense of place and enthusiasm for Wales, while making practical arrangements to meet language needs. |

| | |
|---|---|
| Mae angen i'n holl staff ddeall a pharchu diwylliant Cymreig a chael rywfaint o wybodaeth am yr iaith Gymraeg. Mae empathi gydag iaith a diwylliant Cymru fel bod yn ystafell fyw rhywun - eu tir nhw ydyw ac mae angen parch a chwrteisi!<br><br>Rydym hefyd yn disgwyl i'n holl staff feithrin dealltwriaeth a chynhwysiant o fewn ein cymunedau unigryw ac amrywiol. Mae hyn yn rhan o gyflawni amcan y cyngor "i ddod â'r cyngor yn nes at y gymuned", ond mae hefyd yn hanfodol ar gyfer gwerthoedd gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>O fewn gwasanaethau cymdeithasol, gall llawer o drigolion Sir Ddinbych fynegi eu hanghenion gofal orau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn fod yn arbennig o amlwg ar gyfer plant bach, pobl ag anableddau dysgu a phobl â dementia sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ond yn wir mae'n fwy eang na hynny.<br><br>Rydym yn gwybod y gall pobl benderfynu peidio defnyddio'r Gymraeg os nad yw eu cysylltiad cyntaf â'r gwasanaethau yn eu hannog i'w defnyddio. Maent wedyn yn fwy tebygol o barhau'r cysylltiad â gwasanaethau yn Saesneg, hyd yn oed os byddent mewn gwirionedd yn fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg. Gall pobl fod yn fregus iawn pan fyddan nhw angen ein gwasanaethau ac ar gyfer y rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod hyn ar gael yn awtomatig.<br><br>Rydym yn credu ein bod angen cynllunio ein gwasanaethau fel bod mwy o siaradwyr Cymraeg ar gael pan gysylltir â'r gwasanaethau am y tro cyntaf, a hefyd bod anghenion | All our staff need to have an understanding and respect for Welsh culture and some knowledge of the Welsh language. Empathy with Welsh language and culture is like being in someone's front room- it is their home ground and requires respect and courtesy!<br><br>We also expect all our staff to foster understanding and inclusion within our distinctive and diverse communities. This is part of fulfilling the council's objective "to bring the council closer to the community" but is also fundamental to social services values.<br><br>In social services, many Denbighshire residents can communicate their care needs best through the medium of Welsh. This may be particularly obviously for small children, people with learning disabilities and people with dementia whose first language is Welsh, but is true more widely than that.<br><br>We know that people can be easily put off using Welsh if their first contact with services does not encourage them to use it. They are then most likely to continue their contact with services in English, even if they would really be more comfortable in Welsh. People can be very vulnerable when needing our services and for those who speak Welsh as their first language, it is our responsibility to make sure this is automatically available.<br><br>We believe we need to plan our services so that more Welsh speakers are available when services are contacted first, and also that language needs are checked at key points. The profile of our Welsh speaking staff is patchy. In general, we don't |

| | | |
|---|---|---|
| ieithyddol yn cael eu gwirio ar adegau allweddol. Mae proffil ein staff sy'n siarad Cymraeg yn anghyson. Yn gyffredinol, nid oes gennym unrhyw anhawster o ran darparu gwasanaethau dwyieithog yng nghartrefi preswyl y cyngor, gofal ychwanegol, ail-alluogi, timau ardal a gwasanaethau anabledd dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am ein holl wasanaethau ac mae angen dod o hyd i ffyrdd, gyda staff, i wella hyn. Hefyd, yn Sir Ddinbych mae cyfran uchel o'n gwasanaethau'n cael eu darparu drwy'r sector annibynnol. Mae hyn yn ei gwneud yn arbennig o bwysig i ni weithio gyda'r darparwyr hyn i wneud yn siŵr bod angen iaith yn derbyn sylw yn y ffordd maent yn datblygu a darparu gwasanaethau.<br><br>Rydym yn awyddus i ddatblygu sgiliau iaith ein staff ymhellach trwy ddarparu ystod well o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith ar wahanol lefelau, gan annog cyfeillio a mentora a ffyrdd eraill y gall yr holl staff gymryd rhan e.e. drwy eitemau rheolaidd mewn rhaglenni cyfarfodydd tîm, diwrnodau datblygu neu drwy amcanion gwerthuso perfformiad.<br><br>Mae'r rhain yn heriau pwysig, ond credwn y gallwn eu cyflawni ac mae'n rhaid i ni os yw ein strategaeth a chynllun gweithredu am fod yn "Fwy na Geiriau." | | have any difficulty in providing bilingual services in the council's residential homes, extra care, in reablement, locality teams and learning disability services. However, this is not true of all our services and we need to find ways, with staff, to improve this. Also, in Denbighshire, a large proportion of our services are provided through the independent sector. This makes it particularly important that we work with these providers to make sure that language need is attended to in the way they develop and deliver services<br><br>We are keen to build our staff's language skills further through providing an improved range of work based learning opportunities pitched at different levels, encouraging buddying and mentoring and other ways that all staff can get involved eg through regular items on team meeting agendas, at development days or through performance appraisal objectives.<br><br>These are important challenges but we believe we can rise to them and we must if our strategy and action plan are to be "Mwy na geiriau/More than just words." |